Cyngor Abertawe

# Cynllun Datblygu Lleol 2 Abertawe: Cynllun Cyn-adnau (Strategaeth a Ffefrir)

## Crynodeb Gweithredol Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol: Cam 1

Rhifyn | Rhagfyr 2024

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient. Ni fwriedir iddo fod ar gyfer unrhyw drydydd parti, ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno, ac ni chymerir cyfrifoldeb am unrhyw drydydd parti.

Rhif y gwaith 305887-01

**Ove Arup & Partners International Limited**
4 Pierhead Street
Glannau'r Brifddinas
Caerdydd
CF10 4QP
Y Deyrnas Unedig
arup.com

# Crynodeb Gweithredol

Mae Cyngor Abertawe'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol Abertawe ar hyn o bryd sy'n rhedeg o 2023 i 2038, ac a fydd yn cael ei adnabod fel 'Cynllun Cyn-adnau Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023 - 2038 (CDLl2) ('Strategaeth a Ffefrir'). Mae'r ddogfen hon, sy'n cael ei pharatoi gan Ove Arup and Partners Ltd (Arup) ar ran Cyngor Abertawe, yn sgriniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol: Cam 1 ar y Strategaeth a Ffefrir.

Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth a Ffefrir CDLl2, y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a'r Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025.Gellir dod o hyd i fanylion yma: Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023 - 2038 (CDLl2) - Abertawe.

Daeth yr asesiad sgrinio i'r casgliad nad oes modd diystyru'r Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar safleoedd dynodedig rhyngwladol o ganlyniad i weithredu'r Strategaeth a Ffefrir 'yn unig', mewn perthynas ag effeithiau posib sy'n gysylltiedig â cholli cynefinoedd/difrod ffisegol, aflonyddwch nad yw'n ffisegol, newidiadau i drefn hydrolegol/lefelau dŵr ac ansawdd dŵr, llygredd aer ac aflonyddwch/difrod hamdden.

Cafodd y rhan fwyaf o bolisïau strategol y Strategaeth a Ffefrir eu gwrthod yn ystod y cam sgrinio fel rhai nad oeddent yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd. Fodd bynnag, sgriniwyd wyth polisi strategol (PS1, PS2, PS3, PS8, PS9, PS11, PS12 a PS13), sy'n hyrwyddo datblygu safleoedd preswyl a defnydd cymysg, diwydiant, gosod targedau a strategaethau ar gyfer nifer y tai y mae eu hangen ar draws ardal y Strategaeth a Ffefrir. Bydd angen cynnal asesiad priodol (sef cam 2 o'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) o'r polisïau hyn sydd wedi'u sgrinio er mwyn ystyried unrhyw fanylion ychwanegol ac unrhyw fesurau lliniaru a gynigir i benderfynu a fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol o'r polisïau yn tanseilio cyfanrwydd amcanion cadwraeth safleoedd dynodedig rhyngwladol ac felly bod yn destun y broses randdirymu.

Cafodd y 13 o Ardaloedd Creu Lleoedd ac Adfywio Strategol a drafodwyd o dan PS8 hefyd eu sgrinio. Nid oedd yn bosib diystyru'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar gyfer pob un o'r 13 o Ardaloedd Creu Lleoedd ac Adfywio Strategol oherwydd eu daearyddiaeth a'r mathau o effaith bosib a ragwelir o gyflenwi'r safleoedd.

Nid oedd angen cynnal asesiad o effeithiau cyfunol ar y cam hwn o'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, oherwydd bod y Strategaeth a Ffefrir naill ai'n cael ei sgrinio allan yn llwyr, neu'n cael ei sgrinio i mewn gan nad oedd yn gallu eithrio effeithiau arwyddocaol tebygol yn unig.

Bydd yr asesiad priodol yn cael ei gynnal wrth baratoi'r Cynllun Adnau a gallai mesurau lliniaru (y byddant yn cael eu hystyried yn y cam asesu priodol yn unig) gynnwys mesurau osgoi, diwygiadau i eiriad y polisi a'r angen am sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ac asesiad priodol i sicrhau nad oes unrhyw Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar safleoedd dynodedig rhyngwladol.